



ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMUNED

Ynghylch y cynnig i adlunio darpariaeth gynradd yng ngorllewin y Fro trwy:

1. greu adeilad ysgol gynradd newydd â 210 o leoedd ynghyd â dosbarth meithrin â 48 o leoedd rhan-amser ar y tir i'r gogledd o'r rheilffordd yn y Rhws;
2. symud staff a disgyblion o Ysgol Gynradd Llancarfan i'r adeilad ysgol newydd;
3. ymestyn ystod oedran yr ysgol o 4-11 oed i 3-11 oed

**Cyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau
Cyngor Bro Morgannwg**

Mae'r ddogfen hon ar gael ar ffurfiau eraill ar gais

Cysylltwch â ni ar 01446 709727 i drefnu hyn.

Cynnwys	Tudale nnau
1. Cyflwyniad	3
2. Cyd-destun Cenedlaethol	3 - 4
3. Cyd-destun Polisi Lleol	4
4. Effaith ar y Gymuned	4
Dalgylch	4
Cyfleusterau/Gweithgareddau Ysgol Presennol	5
Materion Traffig/Llwybrau Cerdded	6 - 7
5. Casgliad	7 - 8

1. Cyflwyniad

Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi ymrwymo i sicrhau bod pob disgybl yn y Fro yn gallu cael cyfle i gyflawni'r deilliannau gorau posibl. Er mwyn cyflawni'r nod hwn mae'n hanfodol ein bod ni'n sicrhau bod ysgolion yn dal i fod yn gynaliadwy, yn adlewyrchu anghenion y gymuned leol a bod ganddynt yr amgylcheddau dysgu gorau posibl.

Mae'r Cyngor yn cynnig adeiladu adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Gynradd Llancarfan gyda 210 o leoedd, gan ychwanegu darpariaeth ar gyfer 48 o leoedd meithrin rhan amser yn Y Rhws. Cynigir bod pob disgybl, aelod staff a llywodraethwr o Ysgol Gynradd Llancarfan yn symud i'r adeilad ysgol newydd.

Byddai'r Cyngor yn hwyluso symudiad Ysgol Gynradd Llancarfan i'r adeilad ysgol newydd drwy Fand B Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Golyga hyn adeilad ysgol gynradd gyda 210 o leoedd a dosbarth meithrin â 48 lle rhan amser gan newid ystod oedran yr ysgol o ysgol 4-11 oed i ysgol sy'n addysgu plant rhwng 3-11 oed.

Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod ysgolion yn gwasanaethu eu cymunedau lleol a'u bod yn adlewyrchu'r galw. Mae angen ateb y galw i'r dyfodol a fydd yn deillio o ddatblygiadau tai newydd yn Y Rhws a sicrhau bod y ddwy ysgol yn gwasanaethu'r cymunedau. Byddai ysgol newydd â 210 o leoedd, sef yr isafswm maint ar gyfer ysgol effeithlon a hefyd yr isafswm maint y byddai'r Cyngor yn adeiladu o ran cynaliadwyedd, yn ddigon mawr ar gyfer y cynnydd arfaethedig yn niferoedd y disgyblion a fydd yn deillio o ddatblygiadau newydd yn Y Rhws, yn ogystal â'r niferoedd disgyblion arfaethedig a fyddai'n symud o safle presennol Ysgol Gynradd Llancarfan. Bydd adolygu anghenion ehangach Gorllewin y Fro yn rhoi cyfle i sefydlu adeilad ysgol yr 21ain ganrif newydd wrth fynd i'r afael ag anghenion cymunedol a heriau capasiti sy'n weddill.

Byddai'r cynnig yn rhoi amgylchedd dysgu arloesol a chreadigol y mae modd ei addasu a fydd yn herio ac yn cefnogi plant i gyflawni eu llawn potensial. Bydd y cynnig yn cynnal ac yn cynyddu lefel y mynediad cymunedol a'r rhyngweithio drwy ddefnyddio cyfleusterau addysgol yr ysgol wrth fodloni anghenion yr ysgol.

Mae'r Cyngor yn cynnig y bydd adeilad newydd yr ysgol a throsglwyddiad Ysgol Gynradd Llancarfan yn weithredol o fis Medi 2021.

2. Cyd-destun Cenedlaethol

Mae'r canllawiau statudol allweddol ar gyfer awdurdodau lleol wrth ddatblygu cynigion statudol ar gyfer newidiadau trefniadaeth ysgolion yn unol ag adran 42 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2013. Wrth ystyried cynigion mae'n rhaid i'r awdurdod ystyried yr effaith ar y gymuned leol, yn benodol mewn ardaloedd gwledig ac mewn ardaloedd dynodedig i raglenni cymunedau yn gyntaf a rhaglenni dilynol.

3. Cyd-destun Polisi Lleol

Gan adlewyrchu polisi cenedlaethol a nodir yn Neddff Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'r Cyngor wedi ymrwymo yn ei Gynllun Corfforaethol 2016-20 i gyflawni gweledigaeth – **'Cymunedau Cryf gyda dyfodol llewyrchus'**.

Mae Bro Morgannwg wedi ymrwymo i gyflawni amcan 'Bro Uchelgeisiol' gan gynyddu safonau deiliant cyffredinol drwy foderneiddio addysg yn y Fro i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn derbyn addysg o'r radd flaenaf.

Er mwyn cyflawni hyn, rydym yn credu ei bod hi'n bwysig ein bod yn cefnogi deilliannau dysgu ac addysgu drwy gynnis adeiladau modern ac addas at y diben sy'n bodloni anghenion addysg fodern. Mae angen i ysgolion allu cynnig y profiad dysgu gorau posibl i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y cyfleoedd gorau sydd ar gael iddynt a'u bod nhw'n gallu cyflawni eu llawn botensial.

4. Effaith ar y Gymuned

Dalgylch

Mae Ysgol Gynradd Llancarfan yn ysgol gynradd gymunedol cyfrwng Saesneg sydd ag ardal y mae'n ei gwasanaethu, a elwir yn ddalgylch. Mae'r ysgol yn gallu rhoi lle i ddisgyblion o'r dalgylch ac mae'n rhaid i'r Awdurdod ystyried y galw parhaus hwn. Mae gan rieni hawl i nodi eu dewis ysgol. Caiff nifer y disgyblion sy'n mynychu ysgolion ei effeithio gan ddewis rhieni gyda lefel uchel o symud disgyblion yn amlwg rhwng dalgylchoedd ysgolion.

Mae'r tabl canlynol yn amlygu effaith dewis rhieni ar gyfer Ysgol Gynradd Llancarfan.

Nifer y plant sy'n mynychu o ysgolion dalgylch priodol								
Ysgol	Nifer ar y gofrestr	Dalgylch Llancarfan	Dalgylch Y Rhws	Ysgolion dalgylch Y Barri	Ysgolion dalgylch Llanilltud	Ysgolion dalgylch Y Bont-faen	Ysgolion dalgylch Penarth/Dinas	Arall
Ysgol Gynradd Llancarfan	106	31	36	14	22	2	0	1

Dadansoddiad o ddalgylch Ysgol Gynradd Llancarfan

Mae Ysgol Gynradd Llancarfan yn gwasanaethu ei hardal benodol ac ardaloedd Llancatal, Llanbydderi a Llantrithyd.

Mae gan yr ysgol boblogaeth ddalgylch o 55 o blant yn erbyn capasiti o 126 o leoedd. Dim ond 31 allan o 55 o blant oedran cynradd sy'n byw yn y dalgylch sy'n mynychu'r ysgol. Byddai symud yr ysgol i le mwy gyda dalgylch newydd â niferoedd cynaliadwy yn galluogi'r ysgol i barhau â'i llwyddiant wrth fod yn addas ar gyfer poblogaeth ysgol fwy.

Mae gan Ysgol Gynradd Llancarfan gapasiti o 126 o ddisgyblion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgol yn byw y tu allan i'r dalgylch. Ar hyn o bryd, mae 106 o blant ar y gofrestr, ac mae 31 ohonynt (29%) yn byw yn y dalgylch. Mae'r 75 o blant eraill (71%) yn byw y tu allan i'r dalgylch. Mae 36 (34%) o'r 75 disgybl sy'n byw y tu allan i'r dalgylch yn byw yn nalgylch Ysgol Gynradd Y Rhws.

Yn rhan o'r cynnig, byddai angen ail-lunio dalgylch presennol Ysgol Gynradd Llancarfan. Byddai'r cynnig yn rhannu'r dalgylch presennol rhwng Ysgol Gynradd Llancarfan yn Y Rhws, ac Ysgolion Cynradd Llanfair, Sain Tathan a Sain Nicolas. Byddai angen ailbennu dalgylch presennol Ysgol Gynradd Y Rhws hefyd i gynnig rhaniad priodol o ddisgyblion yn Y Rhws i wasanaethu'r ddwy ysgol.

Mae disgwyl i'r adolygiadau i'r dalgylchoedd gynyddu nifer y disgyblion i ysgolion eraill, gan wella cynaliadwyedd i'r dyfodol a chyfrannu at ymrwymiad y Cyngor i leihau capasiti gweddilliol yn ei ysgolion.

Bydd y dalgylchoedd diwygiedig yn dod â digon o ddisgyblion i ateb y galw am addysg yn y dalgylchoedd.

Cyfleusterau/Gweithgareddau Ysgol Presennol

Mae Ysgol Gynradd Llancarfan yn cynnig cyfleusterau tu allan i'r ysgol i rieni a gofalwyr a gaiff eu rhedeg ar safle'r ysgol yn benodol ar gyfer plant Llancarfan. Mae'r sesiynau clybiau fel a ganlyn:

Sesiwn clwb brechwast 8.00am - 8.45am
Sesiwn ar ôl ysgol 3.30pm - 5.30pm

Mae'r sesiwn clwb brechwast yn glwb brechwast Llywodraeth Cymru am ddim i rieni ac mae ar gael rhwng 8.00 a 8.45am. Mae'r gwasanaeth hwn am ddim a gall plant o unrhyw grŵp oedran yn yr ysgol fynychu.

Mae'r sesiwn ar ôl ysgol rhwng 3.30pm tan 5.30pm yn cael ei rhedeg gan yr ysgol am £6.50 fesul sesiwn i rieni.

Mae'r clybiau uchod yn galluogi rhieni i gael mynediad at ofal cofleidiol i'w plant mewn amgylchedd diogel a chyffrous.

Mae'r ysgol yn cynnig ystod o weithgareddau allgyrsiol a arweinir gan athrawon yn ystod amser cinio ac ar ôl ysgol. Mae clybiau cwricwlaidd ar ôl ysgol rhwng 3.30pm a 4.20pm.

Ymhlith y clybiau allgyrsiol mae:

- Rygbi

- Pêl-droed
- Pêl-rwyd
- Ffrangeg
- Comig
- Cyfryngau
- Clwb Sum Dog/Gwyddbwyll
- Clwb Recordiwr

Mae gan yr ysgol gysylltiadau cryf â'r gymuned. Mae rhieni ac aelodau lleol o'r gymuned yn cymryd rhan mewn sesiynau cymorth darllen cyfoedion ac unigol yn yr ysgol. Nid yw'r gymuned leol yn defnyddio cyfleusterau'r ysgol ar gyfer unrhyw weithgareddau lleol.

Bwriedir parhau i ddarparu'r holl gyfleusterau presennol i blant, rhieni a'r gymuned, pe byddai'r cynnig yn mynd yn ei flaen.

Materion Traffig/Llwybrau Cerdded

Nid yw Cyngor Bro Morgannwg yn cynnig trafndiaeth ysgol am ddim i blant oed meithrin heblaw am y rheiny sydd â Datganiad Anghenion Addysgol Arbennig (AAA). Dan y cynigion hyn, nid oes cynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar gludo'r plant i ac o'r ysgolion.

Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i gynnig trafndiaeth ysgol am ddim i ddisgyblion oed ysgol statudol sy'n byw y tu hwnt i bellter cerdded at yr ysgol briodol agosaf.¹

“Diffinnir hyn yn fwy na 2 filltir at yr ysgol addas agosaf i Ddisgyblion Cynradd a mwy na 3 milltir i Ddisgyblion Ysgol Uwchradd. Caiff pellteroedd eu mesur gan y llwybr cerdded agosaf sydd ar gael.”²

Bydd unrhyw ddisgybl sy'n mynd i Ysgol Gynradd Llancarfan ar ddyddiad symud i'r safle newydd sy'n byw mwy na 2 filltir o safle newydd yr ysgol yn gymwys ar gyfer trafndiaeth ysgol am ddim. Ni fydd unrhyw ddisgybl nad yw'n byw 2 filltir o safle newydd Ysgol Gynradd Llancarfan mwyach, o ganlyniad i'r symud, yn gymwys ar gyfer trafndiaeth ysgol am ddim. Byddai'r trefniadau pontio derbyn a gynigir yn rhan o'r ymgynghoriad hwn yn cael eu hadlewyrchu yn narpariaeth y drafnidiaeth. Byddai hyn yn cefnogi plant â brodyr a chwiorydd a effeithir gan y newid i'r dalgylchoedd i sicrhau, os bydd y rhieni'n gofyn, y derbynia'r holl frodyr a chwiorydd drafnidiaeth i safle newydd Ysgol Gynradd Llancarfan os byddant yn mynychu'r ysgol ar yr un pryd ac yn byw mwy na 2 filltir o safle newydd yr ysgol.

http://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/working/education_and_skills/schools/school_transport/school_transport.aspx

¹Polisi ar gyfer Darparu Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol (Diwygiedig Chwefror 2010)

²Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008

Nid oes effaith o ganlyniad i'r cynnig hwn ar y llwybrau cerdded diogel sydd ar gael i ddisgyblion gael mynediad at yr ysgolion.

Ni ddisgwylir y bydd unrhyw effaith uniongyrchol ar lefelau traffig yn yr ardal o ganlyniad i'r adeilad newydd â 210 o leoedd ar gyfer Ysgol Gynradd Llancarfan. Mae goblygiadau traffig a thrafnidiaeth yn cael eu hystyried yn rhan o'r Asesiad Trafnidiaeth y bydd angen ei gyflawni er mwyn cael caniatâd cynllunio ar gyfer y gwaith adeiladu pe bai'r cynnig hwn yn cael ei weithredu. Mae safle un hectar yn cael ei neilltuo ar gyfer adeiladu'r ysgol gynradd.

5. Canlyniad

Bydd y cynnig yn galluogi'r ysgol i barhau â'i llwyddiant a bod â digon o leoedd ar gyfer poblogaeth uwch o ddisgyblion. Byddai'r cynnig yn rhoi amgylchedd dysgu arloesol a chreadigol y mae modd ei addasu a fydd yn herio ac yn cefnogi plant i gyflawni eu llawn botensial.

Bydd y cynnig yn cynnal ac yn cynyddu lefel y mynediad cymunedol a'r rhyngweithio drwy ddefnyddio cyfleusterau addysg yr ysgol wrth fodloni anghenion yr ysgol.

Bydd y cynnig yn defnyddio dull cyson o 3-11 oed a fydd yn hyrwyddo ac yn tanategu parhad a dilyniant i ddisgyblion, gan sicrhau ehangder a chydbwysedd ar draws y cwricwlwm.

Bydd yr ysgol yn gallu ymgorffori darpariaeth ar gyfer plant 3 a 4 oed mewn lleoliad Blynyddoedd Cynnar a Chyfnod Sylfaen o ansawdd uchel. Byddai meithrinfa yn galluogi pontio llyfn i blant oed meithrin i ddosbarth derbyn yr ysgol a chynnal niferoedd y disgyblion i'r dyfodol.

Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn cynnig ystod o weithgareddau i ddisgyblion y tu allan i ddiwrnod arferol yr ysgol. Mae rhieni ac aelodau'r gymuned yn cynnig sesiynau cymorth darllen cyfoedion ac unigol i blant. Cynigir fel isafswm y bydd yr holl gyfleusterau presennol i rieni disgyblion a'r gymuned yn parhau gyda'r cynnig.

O ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned, disgwylir i'r cynnig i newid darpariaeth gynradd yng Ngorllewin y Fro arwain at:

- Effaith gymunedol bositif yn gyffredinol. Ni fydd unrhyw effaith andwyol ar gyfleusterau cymunedol na lleol presennol yn yr ardal. Bydd y cynnig yn gwella ac yn cefnogi mwy o gyfleusterau ar gyfer y gymuned leol a'r plant. Bydd y cynnig yn cynnal ac yn cynyddu lefel y mynediad cymunedol a'r rhyngweithio drwy ddefnyddio cyfleusterau addysg yr ysgol wrth fodloni anghenion yr ysgol.
- Bydd y cynnig yn golygu model cyflawni mwy effeithlon a chynaliadwy i wella cyflawniad addysg ar gyfer yr 21ain Ganrif sy'n cwrdd â safonau adeiladu cenedlaethol ac sy'n lleihau costau ac ôl troed carbon adeiladau addysg.